

Jane Hutt AS/MS  
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol  
Minister for Social Justice



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref JH-/00451/22

Y Cynghorydd Simon Glyn  
Cadeirydd y Cyngor  
Cyngor Gwynedd

[airianroberts3@gwynedd.llyw.cymru](mailto:airianroberts3@gwynedd.llyw.cymru)

19 Ebrill 2022

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mawrth mewn perthynas â chefnogaeth ar gyfer Aelodau Bwyd Cymunedol FareShare.

Rydym yn cydnabod yr effaith y mae'r argyfwng costau byw yn ei chael ar bawb, yn enwedig y rheini sy'n byw ar aelwydydd incwm isel. Mae awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol ledled Cymru wedi nodi cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar fanciau bwyd a darpariaeth bwyd cymunedol, megis oergelloedd cymunedol.

Ym mis Mawrth eleni, darparwyd cyllid ychwanegol o £1m i CLILC ar gyfer trechu tlodi bwyd, er mwyn i awdurdodau lleol ei ddefnyddio a'i ddyrannu i brosiectau trechu tlodi bwyd lleol. Fodd bynnag, mae hyn yn eithriad mewn ymateb i'r pwysau sy'n wynebu sefydliadau ar hyn o bryd, ac ni ellir cytuno i wneud yr un fath mewn blynyddoedd dilynol.

Gallai'r cyllid gefnogi sefydliad bwyd cymunedol i brynu bwyd a nwyddau hanfodol eraill; gall gefnogi mentrau fel banciau babanod neu fanciau dillad/gwsg ysgol; gellir ei ddefnyddio i gefnogi mentrau sy'n helpu teuluoedd i arbed arian ar fwyd drwy feithrin sgiliau bwyd a gwybodaeth. Gellir defnyddio'r cyllid hefyd i gefnogi camau gweithredu i gynyddu'r defnydd o gymorth sy'n bodoli eisoes, megis talebau Cychwyn Iach.

Mae yna opsiynau eraill wrth gwrs, a gellir defnyddio'r cyllid i helpu Aelodau Bwyd Cymunedol FareShare gyda'u tâl aelodaeth. Mae disgwyliad y bydd Aelodau Bwyd Cymunedol yn cymryd camau i godi'r arian sydd ei angen i ysgwyddo costau aelodaeth. Er enghraifft, er na chaniateir iddynt werthu'r bwyd y maent yn ei gael gan FareShare, caniateir iddynt ofyn am gyfraniad gan eu cleientiaid/aelodau neu gyflwyno polisi 'talur hyn a fedrwc'.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales](mailto:Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Jane Hutt AS/MS  
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol  
Minister for Social Justice



---

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Dylai Aelodau Bwyd Cymunedol FareShare siarad â'r awdurdod lleol am y cyllid sydd ar gael.

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a long horizontal line above the first name.

**Jane Hutt AS/MS**  
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol  
Minister for Social Justice  
Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref JH-/00451/22

Jane Hutt AS/MS  
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol  
Minister for Social Justice



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref JH-/00451/22

Councillor Simon Glyn  
Chairman of the Council  
Gwynedd Council

[eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru](mailto:eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru)

19 April 2022

Dear Simon,

Thank you for your letter of 25 March regarding support for FareShare Community Food Members (CFMs).

We recognise the impact that the cost-of-living crisis is having on everyone, especially those living in low income households. Local authorities and community groups across Wales have reported a rise in the number of those accessing food banks and community food provision, such as community fridges.

In March this year we provided an additional £1m funding for tackling food poverty to the WLGA to be drawn down by local authorities and allocated to local projects for tackling food poverty. However, this is an exception in response to the pressures that organisations are currently facing and cannot be agreed for subsequent years.

The funding can support community food organisation to purchase food and other essential goods; it can support initiatives such as baby banks or clothes banks / uniform banks; it can also be used to support initiatives which can help families save money on food by building their food knowledge and skills. Funding can also be used to support action to increase the uptake of existing support such as Healthy Start vouchers.

This list is not exhaustive and the funding can be used to support FareShare CFMs with their membership fees at this time. There is an expectation that CFMs will take steps to raise the funding needed to meet the cost of their membership. For example, while they are not allowed to sell the food they receive from FareShare, they are allowed to ask for a donation from their clients/members or introduce a 'pay what you can' policy.

Jane Hutt AS/MS  
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol  
Minister for Social Justice



---

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

FareShare Community Food Members should speak to their local authority about the funding available.

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a long horizontal line above the first letter of "Jane".

**Jane Hutt AS/MS**  
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol  
Minister for Social Justice